

PECYN
CYNIGION
YSGOLION

CYD-GYNHYRCHIAD GAN FRÂN WEN A THEATR Y SHERMAN

DYNOLWAITH

GAN
LEO
DRAYTON

26 MEDI - 11 HYDREF 2025

FRÂN WEN

FRANWEN.COM

SHERMAN
THEATR • THEATRE

CYNHYRCHIAD THEATR CYMRAEG NEWYD

ADDAS I FYFYRWYR UG, SAFON UWCH A CELFYDDYDAU PERFFORMIO

CYNIGION ARBENNIG I YSGOLION A CHOLEGAU

£1000 O GRANT AR GAEL I YSGOLION

Mae **Frân Wen** a **Theatr y Sherman** yn falch o gyflwyno manylion taith Dynolwaith, drama newydd gan Leo Drayton sy'n un o leisiau mwya' cyffrous theatr Cymru.


CRYNODEB O'R SIOE

Mae'n 2015. Mae Jac yn ddyn traws ifanc, wedi'i eni yn y corff anghywir, yn dechrau chwilio am y bywyd mae o wir eisiau ei fyw.

Wrth iddo gychwyn ar y daith o drawsnewid, mae tensiynau'n codi, mae perthnasoedd yn dechrau teimlo'r straen, ac mae'r gefnogaeth sydd wastad wedi bod yn gadarn yn dechrau teimlo'n fregus. Pan gaiff ei wrthod mae'n ei cholli hi ac yn gwthio'i gorff a'i feddwl i'r eithaf.

All Jac ddibynnu ar y rhai agosaf ato pan mae o eu hangen fwyaf?

MANYLION Y DAITH



26 MEDI - 11 HYDREF 2025

Mae pob perfformiad gyda'r nos (amseroedd yn amryw ym mhob theatr). Rhaid archebu tocynnau drwy'r theatrau yn uniongyrchol:

DYDDIAD	LLEOLIAD	MANYLION CYSWLLT	WEFAN	CYNNIG I STAFF	PRIS YSGOLION / COLEGAU
26 Medi - 4 Hydref	Theatr y Sherman CAERDYDD	02920 646 900 box.office@shermantheatre.co.uk	www.shermantheatre.co.uk	1 staff am ddim i bob 10 disgybl.	£10
7 Hydref	Canolfan Arad Goch ABERYSTWYTH	01970 617998 post@aradgoch.org	https://www.eventbrite.com/e/1416284688629	1 staff am ddim i bob 10 disgybl.	£10
9 Hydref	Galeri CAERNARFON	01286 685 222 post@galericaernarfon.com	www.galericaernarfon.com	1 staff am ddim i bob 10 disgybl.	£10
10 Hydref	Pontio BANGOR	01248 38 28 28 s.hughes-jones@bangor.ac.uk	www.pontio.co.uk	1 staff am ddim i bob 10 disgybl.	£10
11 Hydref	Theatr Derek Williams Y BALA	post@theatrderekwilliams.cymru	www.theatrderekwilliams.cymru	1 staff am ddim i bob 10 disgybl.	£10



CRONFA EWCH I WELD I YSGOLION

HYD AT £1,000 I DALU COSTAU

TEITHIO I THEATRAU

Gall ysgolion ymgeisio am grantiau bychain, untro hyd at £1,000 i ariannu ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol o safon mewn canolfannau led-led Cymru. Gall ysgolion gynnwys ymweliadau â pherfformiadau ac arddangosfeydd neu ymweliadau er mwyn gweld proffesiynolion celfyddydol wrthi'n datblygu a chreu eu gwaith.

Gall y grant dalu am:

- Llogi bws neu gostau cludiant cyhoeddus arall.
- Costau tocynnau.
- Costau gweithdy.

Dim ond YSGOLION all ymgeisio am arian Ewch i Weld.

Bydd y grant yn talu hyd at 90% o'r costau felly os yw cyfanswm y gost yn £1,000 gallwch hawlio £900.

Pwysig

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Ewch i Weld fydd hanner Dydd Llun 7 Gorffennaf 2025.
Bydd angen cwblhau ffurflen gais syml ar lein drwy ddilyn y linc yma:

<https://arts.wales/cy/ariannu/gwneud-cais/dysgu-creadigol/ewch-i-weld>

SUT I GWBLHAU'R FFURFLEN

- Amlinelliad o'r gweithgarwch yr hoffech wneud cais amdano

Hoffwn wneud cais am gyfraniad tuag at gostau mynd a (nifer) o ddisgyblion Blwyddyn (x) i weld y cynhyrchiad DYNOLWAITH gan Frân Wen yn (enw lleoliad) ar (dyddiad).

Wedi ei 'sgwennu a'i berfformio gan Leo Drayton, mae Dynolwaith yn stori hynod bersonol ac emosiynol am hunan-ddarganfod, dewrder a thrawsnewidiad.

- Cyfanswm cost y prosiect a swm y grant a geisiwch amdano

Bydd angen nodi sut y byddwch yn gwario'r grant boed yn gostau teithio, tocynnau, gweithdy neu gyfuniad o'r rhain.

- Ymrwymiad i gyfrannu'r arian cyfatebol sydd yn 10% o leiaf o gyfanswm costau'r prosiect
- Gwybodaeth am y grwpiau o bobl ifanc a gaiff fudd o'r prosiect
- Disgrifiad o'r ysgol
- Esboniad am sut bydd y gweithgarwch yn ychwanegol at weithgareddau creadigol arferol.

Gallwch gysylltu yn uniongyrchol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru am gefnogaeth drwy gysylltu ar e-bost: dysgu.creadigol@celf.cymru neu mae croeso i chi gysylltu â carl@franwen.com / 01248 715048 yn Frân Wen am arweiniad a chymorth pellach.

PERTHNASEDD CWRICWLAIDD

Mae Dynolwaith yn berthnasol i gwricwlwm CBAC UG, Safon Uwch a Ôl-16.

UG: Testun mewn Theatr

Ar gyfer arholiad ysgrifenedig UG, mae'r uned Testun mewn Theatr yn gofyn i ddisgyblion ddangos eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ddehongli testun ar gyfer perfformiad. Anogir disgyblion i ymdrin â'r uned hon yn ymarferol fel actor, dylunydd a chyfarwyddwr.

Mae'n ofynnol i ddisgyblion werthuso darn o theatr fyw y maent wedi'i weld. Bydd hyn yn eu helpu gyda chwestiynau ar amrywiaeth o agweddau yn ystod yr arholiad.

Safon Uwch: Testun mewn Perfformiad

Ar gyfer arholiad ysgrifenedig Safon Uwch, mae'r uned Testun mewn Perfformiad yn gofyn i ddisgyblion ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ddehongli testunau ar gyfer perfformiad mewn arholiad ysgrifenedig. Anogir disgyblion i ymdrin â'r uned hon yn ymarferol fel actor, dylunydd a chyfarwyddwr, ac fel aelod gwybodus o gynulleidfa theatr.

Mae'n ofynnol i ddisgyblion wyllo o leiaf ddau gynhyrchiad theatr byw i lywio eu dealltwriaeth. Bydd hyn yn eu helpu gyda chwestiynau ar amrywiaeth o agweddau yn ystod yr arholiad.

Ôl-16 ABCh

Mae'r ddrama hefyd yn delio â themâu perthnasol ar gyfer Ôl-16 ABCh, gan gynnwys:

- Ddinesydd Brwd – parch at eich hun, eraill ac amrywiaeth
- Iechyd a Llesiant Emosiynol – iechyd corfforol, llesiant emosiynol ac effaith profiadau bywyd ar hunan-barch

PERTHNASEDD CWRICWLAI DD

Perthnasedd i ddrama yng Nghymru:

MAES CWRICWLWM	SUT MAE DYNOLWAITH YN EI GEFNOGI
Cyd-destun Cymdeithasol a Diwylliannol	Materion cyfoes, Cymreig, LHDT+
Ffurf ac Arddull Theatr	Perfformiad unigol, arddull naturiolaid
Yr Iaith Gymraeg a Hunaniaeth Genedlaethol	Wedi'i ysgrifennu a'i berfformio yn y Gymraeg gyda chapsiynau Saesneg
Perfformiad a Potensial Dyfeisio	Testun gellir addasu ar gyfer golygfeydd neu gwaith grwp
Dadansoddiad Beirniadol	Testun cymhleth yn emosiynol, cyfoethog yn thematig

PAM DOD Â'CH DOSBARTH?

- Theatr fyw o safon uchel yn yr iaith Gymraeg
- Yn ysgogi trafodaeth ynghylch themâu go iawn, perthnasol
- Yn cyfoethogi ymgysylltiad â diwylliant a'r iaith Gymreig
- Pecynnau tocynnau arbennig i athrawon yn ogystal â threfniant archebu a thalu hyblyg

HYD Y PERFFORMIAD

Oddeutu 75 munud heb doriad.

CANLLAW OED

16+

IAITH

Cymraeg (gyda chapsiynau Saesneg a Chymraeg)

PWY YW LEO DRAYTON?

Mae Dynolwaith wedi'i ysgrifennu a'i pherfformio gan Leo Drayton, awdur traws o Gaerdydd sy'n adrodd straeon am gymeriadau a phrofiadau cwïar ar draws gwahanol gyfryngau.

Mae ei waith wedi bod mewn cyfrolau llenyddol, prosiectau rhyngwladol, theatr a ffilmiau byrion, gan gynnwys Teth, y ffilm fer gyntaf yn yr iaith Gymraeg i'w dangos yn BFI Flare, yr yf ffilm cwïar fwyaf yn Ewrop.



FRÂN WEN

NYTH, Ffordd Garth, Bangor, LL57 2RW

(01248) 715048 . **FRANWEN.COM** . post@franwen.com



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Ysgrifwr Gwladol Cymru
Sponsored by
Welsh Government



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

